# CYNGOR CYMUNED TROEDYRAUR

## Cofnodion y Cyfarfod a gynhaliwyd ar Chwefror 4ydd, 2025

## yn Neuadd Bentref Ffostrasol.

**Yn bresennol** Cyng. Sian Williams ( Cadeirydd ) Cyng. Teifi Evans

Cyng. Sharon Thomas Cyng. Ceri Jones

Cyng. Mark Davies Cyng. Osian Davies

Cyng. Rob Jones Cyng. Carol Davies

Cyng.Emyr Jones

**Clerc** Rhian Jones

**1 . Ymddiheuriadau**

Cyng. Llyr Evans a'r Cyng. Maldwyn Lewis

**2. Datgan Diddordeb –** Cynllunio – Y Cynghorwyr Ceri Jones ac Emyr Jones

Clwb Bowls Rhydlewis – Y Cyng. Ceri Jones

**3. Cofnodion y Cyfarfod diwethaf**

**3.1 -** Derbyniodd pawb gopi o gofnodion Ionawr a chynigiodd y Cyng.Mark Davies eu bod yn gywir, ac eiliwyd gan y Cyng.Ceri Jones

**4. Materion yn codi o'r cofnodion**

**4.1 -** Mae'r Bocsys halen i gyd wedi eu llenwi a'u gosod yn eu lle – diolch i rai o'r Cynghorwyr am drefnu hyn. Bydd angen trefnu rhoi sticer arnynt er mwyn eu gwahaniaethu, ac i wybod mae eiddo'r Cyngor Cymuned ydynt.

**4.2** - Dal angen trefnu cwrdd gyda Carwyn o Boomerang am arwydd T Llew Jones eto.

**4.3** – Llwybrau Cerdded – Wedi derbyn pris wrth Bois y Mowo , ond dal i ddisgwyl wrth y gweddill. Gofyn i eraill am brisiau gan nad ydym wedi clywed wrth y rhai a gytunwyd eisioes, ac mae angen gwneud y gwaith erbyn diwedd Chwefror. Cytunodd pawb oedd yn bresennol – unwaith bydd y prisiau wedi eu dychwelyd eu bod yn hapus i'r Gadeiryddes fynd gyda'r pris gorau er mwyn cwblhau'r gwaith.

**5. Cyrsiau**

**5.1** – Mae'r cyrsiau diweddarad bu y Cyng Sian Williams a'r Cyng. Mark Davies arnynt wedi bod yn agoriad llygad. Bydd angen i ni ddechrau gyda 'Toolkit' – dechrau gyda beth teimlwn sydd wanaf –

angen mynd trwyddo gyda phob cynghorydd.  Mae hwn yn effeithio ar bob un ohonon, ac angen mynd trwyddo er mwyn i ni allu symud ymlaen.  Mae pawb yma er mwyn lles y gymuned ac angen i ni gefnogi'n gilydd.  Trefnwyd cyfarfod arall ar gyfer hwn ar gyfer nos Fawrth, Mawrth 11eg yn Neuadd Coedybryn.

**6. Materion y Cynghorydd Sir -** DIM

**7. Gohebiaeth**

**7.1** –Derbyniwyd llythyr o Ymddiswyddiad wrth y Clerc ar gyfer diwedd mis Mawrth. Bydd angen hysbysu'r swydd – trafodwyd creu poster i'r hysbysfyrddau ac ar ein tudalen Facebook.

**7.2** - Arolwg Cymunedol Partneriaeth – edrych ar yr Ardal wledig.

**7.3** – Cyngor Cymuned Beulah – llythyr am eu toiledau cynhoeddus. Bydd y Clerc yn ymateb trwy nodi ein bod fel Cyngor yn cydymdeimlo â'i sefyllfa ac yn cefnogi eu penderfyniad.

**7.4** – Diweddariad bws yn yr ardaloedd gwledig – son am Dolen Teifi yn ogystal a'r Green Dragon.

**8. Cynllunio**

**8.1 –** Penlan – ddim llawer o newid – dim ond newid i hostel yn lle dau dŷ. Mae'r tir yn ffinio gyda thir y Cynghorwyr wnaeth Ddatgan Diddordeb.

Nid oes gennym unrhyw wrthwynebiad, ond angen dilyn y canllawiau cynllunio.

**9. Praesept**

**9.1 –** Pob Cynghorydd wedi derbyn copi – bydd angen ei adolygu yn ein cyfarfod Toolkit.

**10. Diweddariad yr Awdit**

**10.1 –** Diolchwyd i bawb wnaeth ymdrech i ddod i'r cyfarfod brys i gwrdd gyda Gwyn Jones. Rydym wedi derbyn 'Audit Completion Notice' o 2017 – 2022.  Hefyd wedi derbyn yr un mwyaf diweddar 2023-24. Angen arddangos yr Audit Competion Notice yn yr Hysbysfyrddau.

**10.2** – Creu Calendar Blynyddol fel fod pob Cynghorydd yn ymwybodol beth sydd angen gwneud yn fisol.

**10.3** – Bydd angen newid cyfeiriad ar yr hysbysiad o Gasgliad o'r Clerc i'r Gadeiryddes.

**11 – Awdit 2024/25**

**11.1 -** heb gyrraedd eto

**11.2** – Awdit Mewnol – angen i ni holi i Gwyn Jones os ydyw'n hapus i dderbyn y swydd ( taflen ar gael gan y Gadeiryddes o'r cwrs mynychodd ym mis Ionawr ). Mae'r Gadeiryddes Sian Williams yn mynd i gysylltu gyda Gwyn Jopnes i weld os yw yn hapus i gymryd y swydd yn ogystal a'r hyn sydd ar y llythyr.

**11.3** – Bydd angen i'r Cadeirydd wneud adroddiad blynyddol ym mis Medi.

**12 – Grant**

**12.1 –** Neuadd Coedybryn – Holi am oleuadau diogelwch, peli snwcer newydd ac angen keypad ar y drws i'r ystafell snwcer.

**12.2** – Eglwys St Michael – angen i'r Clerc gysylltu ( rhaid holi am rhywbeth mwy penodol yn hytrach na cynnal a chadw.

**12.3** – Clwb Bowls Rhydlewis – matiau newydd a bagiau i ddal yr offer

**12.4** – Sioe Dyffryn Teifi – tanciau dŵr.

**12.5** – Eisteddfod yr Urdd – cyffredinol, ond allan o'r Sir gan fod yr Eisteddfod yn Sir Benfro.

**12.6** – Havav – Heb holi am ddim penodol.

**12.7** – Ambiwlans Awyr Cymru – heb lenwi'r ffurflen briodol.

**12.8**- - Urdd – heb lenwi'r ffurflen briodol.

**12.9** – CFfI Ceredigion – heb lenwi'r ffurflen briodol

**12.10** - Nodwyd fod angen newid geiriad ar y ffurflen - rhaid holi am rhywbeth penodol am grant ac nid ar gyfer cynnal a chadw cyffredinol.

**12.11** - Trafodwyd yr holl geisiau yn ofalus a chynigiodd y Cyng Mark Davies ein bod yn rhoi £300 i Neuadd Coedybryn, £300 i Sioe Dyffryn Teifi a £198.50 i Glwb Bowlio Rhydlewis. Bydd angen anfon llythyr at Eglwys Troedyraur iddynt holi am rhywbeth mwy penodol ( gan eu bod wedi llenwi y ffurflen gywir). Eiliwyd hyn gan y Cyng.Sharon Thomas.

**13 – Cyllid**

**13.1 –** Cytunwyd i dalu'r holl anfonebau ac arwyddwyd y sieciau gan y Cyng. Mark Davies a'r Cyng.Ceri Jones.

| | | |
|---|---|---|
| **Cyflog y Clerc –** | **£270.54** | **001797** |
| **HMRC –** | **£67.60** | **001795** |
| **Coed Nadolig -** | **£525.00** | **001796** |
| **Taflenni Canu Carolau -** | **£26.60** | **001798** |

**13.2** - Angen i'r Clerc anfon llythyr at Nat West yn holi am drosglwydd £9,000 i'r Cyfrif Cyfredol. Bydd angen cael 2 gynghorydd i'w arwyddo cyn ei ddanfon.

**13.3** – Yn dilyn y cwrs mis Ionawr nododd y Cyng Mark Davies a'r Gadeiryddes Sian Williams iddynt son am Utility Trust Bank ar gyfer Cynghorau Cymunedol. Byddai modd gwneud popeth ar lein wedyn.

**14. – Materion Ardal**

**14.1** – **Brongest** -Diolchgar iawn i'r Cyngor Cymuned am y blychau halen, meinciau a'r potiau blodau.

**14.2** – **Rhydlewis –** Mae twll yn y ffordd tu allan yr hen siop yn beryglus. Wedi ei lenwi droeon gyda tarmac dros dro, ond angen gwneud y gwaith yn iawn.

**14.3** – **Rhydlewis** – mae'r coed ger Hawen Hall wedi cael ei clirio.

**14.4 – Ffostrasol –** Mae angen llenwi tyllau yn y ffordd mewn sawl man yn y pentref.

**14.5** –**Bwlchygroes** – Mae llawer o ddwr yn casglu ger yr arhosfan bws – angen clirio y draeniau – plant ysgol yn defnyddio hwn yn ddyddiol.

**14.6** –**Ffostrasol** – Mae'r broblem ddwr yn parhau yn y pentref gyda llawer o'r draeniau wedi blocio.

**14.7** – **Croeslan** - Mae nifer yn cerdded o Groeslan i'r gwaith yn Bwlchygroes, ac mae hon yn ffordd gyflym a phrysur – nid oes palmant mewn rhan o'r ffordd ( gall damwain angeuol ddigwydd os bydd hyn yn parhau!).

**14.8** – **Coedybryn** – Llongyfarchiadau i Gareth Thomas, Llangynllo ar gael ei ddewis oi fod yn rhan o garfan Cymru unwaith eto. Cafodd gêm dda iawn dydd sadwrn.

**14.9** – **Croeslan**– Llongyfarchiadau i Teifi Thomas am fod yn rhan o dîm dan 18 y Sgarlets.

**14.10** – Parcypwll – mae'r lori sbwriel yn gwrthod mynd lawr, felly mae'r perchnogion wedi holi a oes modd cael lori fach i fynd lawr i gasglu'r sbwriel mewn mannau mwy anghysbell?

**14.11** – **Coedybryn** – Ar noson Santes Dwynwen bu cyngerdd llwyddiannus iawn yn y neuadd gan PEDAIR (Trefnwyd gan Ffrindiau Ffostrasol).

**15. Cyfarfod Nesaf**

**15.1 –** Bydd ein cyfarfod nesaf yn Neuadd Coedybryn ar Fawrth 4ydd am 7:30yh.

**15.2** – Byddwn yn cynnal Cyfarfod TOOLKIT ychwanegol ar Fawrth 11eg yn Neuadd Coedybryn am 7:30yh

**15.3** – Gan nad oedd dim ymhellach i'w drafod, tynnodd y Gadeiryddes y cyfarfod i ben am 9:30yh

Cytunwyd fod y cofnodion yma'n gywir.

-------------------------------------------------------- --------------------------------------------------

Arwyddwyd ( y Cadeirydd ) Dyddiad